

## Data Cyfrifiad 2011 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Oriau a Weithiwyd

Pob person	Sir Gaerfyrddin		Cymru		Cymru a Lloegr	
<b>Pob person rhwng 16 a 74 oed a oedd mewn gwaith yr wythnos cyn y Cyfrifiad</b>	<b>80,680</b>		<b>1,363,615</b>		<b>26,526,336</b>	
<b>Llawn-amser</b>						
Gweithio rhwng 31 a 48 awr	44,798	55.5%	790,605	58.0%	15,293,318	57.7%
Gweithio 49 awr neu fwy	11,746	14.6%	161,437	11.8%	3,514,362	13.2%
<b>Rhan-amser</b>						
Gweithio 15 awr neu lai	6,932	8.6%	125,060	9.2%	2,543,578	9.6%
Gweithio rhwng 16 a 30 awr	17,204	21.3%	286,513	21.0%	5,175,078	19.5%
<b>Gwrywod</b>	<b>41,938</b>		<b>712,960</b>		<b>14,028,245</b>	
Amser llawn: Gweithio rhwng 31 a 48 awr	26,279	32.6%	473,670	66.4%	9,143,937	65.2%
Amser llawn: Gweithio 49 awr neu fwy	8,925	11.1%	126,169	17.7%	2,691,347	19.2%
Rhan-amser: Gweithio 15 awr neu lai	2,248	2.8%	40,454	5.8%	809,013	5.8%
Rhan-amser: Gweithio rhwng 16 a 30 awr	4,486	5.6%	72,667	10.2%	1,383,948	9.9%
<b>Benywod</b>	<b>38,742</b>		<b>650,655</b>		<b>12,498,091</b>	
Amser llawn: Gweithio rhwng 31 a 48 awr	18,519	23.0%	316,935	48.7%	6,149,381	49.2%
Amser llawn: Gweithio 49 awr neu fwy	2,821	3.5%	35,268	5.4%	823,015	6.6%
Rhan-amser: Gweithio 15 awr neu lai	4,684	5.8%	84,606	13.0%	1,734,565	13.9%
Rhan-amser: Gweithio rhwng 16 a 30 awr	12,718	15.8%	213,846	32.9%	3,791,130	30.3%

### Diffiniadau

#### **Gweithiwr cyflogedig (yn gweithio):**

*Nodir bod unigolyn rhwng 16 a 74 oed yn gyflogedig (neu'n gweithio) os oedd, yn yr wythnos cyn y cyfrifiad, yn gwneud un awr o waith â thâl o leiaf, naill ai fel gweithiwr cyflogedig neu'n hunangyflogedig. Mae hyn yn cynnwys gwaith achlysurol neu dros dro, ar gynllun hyfforddi a noddir gan y llywodraeth, yn gweithio am dâl neu'n ddi-dâl i'ch busnes eich hun neu i fusnes eich teulu, bod i fwrdd o'r gwaith yn sâl, ar gyfnod tadolaeth neu famolaeth, ar wyliau neu fod unigolyn wedi'i gadw dros dro o'i waith.*

**Gwaith llawn amser:**

Diffinnir gwaith llawn amser fel gweithio 31 awr neu fwy'r wythnos. Mae hyn yn gymwys i nifer yr oriau y gwnaeth unigolyn rhwng 16 a 74 oed a oedd mewn cyflogaeth yn yr wythnos cyn y cyfrifiad weithio yn ei brif swydd, ac mae'n cynnwys goramser â thâl a goramser di-dâl.

**Oriau a weithiwyd:**

Nifer yr oriau y gwnaeth unigolyn rhwng 16 a 74 oed mewn cyflogaeth yn yr wythnos cyn y cyfrifiad weithio yn ei brif swydd. Mae hyn yn cynnwys goramser â thâl a goramser di-dâl.

**Prif Swydd:**

'Prif swydd' unigolyn rhwng 16 a 74 oed yw'r swydd y mae'n gweithio'r oriau mwyaf ynddi fel arfer. I bobl nad ydynt yn gweithio adeg y cyfrifiad mae a wnelo'r brif swydd â swydd ddiwethaf yr unigolyn. Mae'r pynciau sydd ynghlwm wrth gyflogaeth oll yn ymwneud â phrif swydd unigolyn.

**Gwaith rhan amser:**

Diffinnir gwaith rhan amser fel gweithio 30 awr neu lai'r wythnos. Mae hyn yn gymwys i nifer yr oriau y gwnaeth unigolyn rhwng 16 a 74 oed eu gweithio yn ystod yr wythnos cyn y cyfrifiad yn ei brif swydd, ac mae'n cynnwys goramser â thâl a di-dâl.